

Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil

Cyfadrn:	Y Gyfadrn Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd
Adran/Pwnc:	Yr Ysgol Feddygaeth
Cyflog:	Gradd 7 £34,132 i £38,249 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos - 1.0% CALI)
Nifer y swyddi:	1
Contract:	Rôl am gyfnod penodol o 12 mis yw hon
Lleoliad:	Lleolir y swydd hon ar Gampws Parc Singleton

Prif Ddyletswyddau	1. Meithrin, gwahaniaethu, a golygu genynnau niwronau cortigol sy'n deillio o Gelloedd bonyn pluripotent ysgogedig (Llinellau sy'n gorfynegi Niwrogenin 2 (NGN2)). Cyd-feithrin ag astrocytau â genoteip apolipoprotein APOE gwahanol. Llinellau celloedd bonyn pluripotent ysgogedig o Labordai Jackson. 2. Perfformio gwaith dileu CRISPR/Cas9 FAR1 a dilysu golygiadau trwy RT-qPCR, Blotio Gorllewinol, a dilyniannu. 3. Cynnal delweddu Imiwnocytochemeg (ICC)/Imiwno-ffloroleuedd a fflwroleuedd/cyddfocal o farcwr niwrit a synaptig; dadansoddi drwy biblinellau awtomataidd (asesiadau allwdf niwritau ac ymgynnull synapsau). 4. Cynnal dadansoddiad lipidomeg o ddarnau niwronau. 5. Perfformio asesiadau electroffisioleg ac ailgylchu fesiglau Electroffisioleg arae aml-electrod (FM4-64). 6. Profi rhagflaenwyr plasmalogen ac asesu adferiad swyddogaethol. 7. Cynorthwyo wrth integreiddio data, delweddu a pharatoi cyhoeddiadau ac adroddiadau.
	8. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau newydd a chyflwyno canlyniadau. 9. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. 10. Dangos hunangymhellant a defnyddio menter bersonol er mwyn dod o hyd i ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau, a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen. 11. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadrn ac mewn mannau eraill yn y Brifysgol a'r tu hwnt fel y bo'n briodol, megis ym maes diwydiant/masnach, mewn sefydliadau cyhoeddus, ysbytai ac yn y byd academiaidd. 12. Cyfrannu at faterion trefniadol y Gyfadrn i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol. 13. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth. 14. Bod yn gynrychiolydd neu'n aelod o bwyllgorau pan fo angen gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol. 15. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau datblygiad proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant. 16. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill. 17. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion Sefydliadau Addysg Uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith.
Dyletswyddau Cyffredinol	18. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol. 19. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd. 20. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.

	21. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt.
Manyleb Person	Meini Prawf Hanfodol: 1. PhD ym maes Niwrowyddoniaeth, Biocemeg neu faes cysylltiedig 2. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan weithredol mewn ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn arbennig ar gyfer cyfnodolion a adolygir a chyfrannu atynt. 3. Gallu amlwg i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect. 4. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil. 5. Mae profiad mewn meithrin celloedd bonyn pluripotent ysgogedig, gwahaniaethu niwronau, a/neu olygu genynnau yn ddymunol iawn. 6. Mae profiad mewn echdynnu protein/RNA/DNA, imiwnoblotio (WB), lipidomeg, Imiwnocytochemeg (ICC)/Imiwno-ffloroleuedd, neu asesiadau electroffisioleg yn fanteisiol. 7. Sgiliau cyfathrebu llafar eithriadol 8. Y gallu i weithio fel aelod o dîm mewn amgylchedd cydweithredol 9. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus Meini Prawf Dymunol 10. PhD ym maes Niwrowyddoniaeth/Niwrocemeg/Biocemeg neu faes cysylltiedig 11. Cyhoeddiadau fel prif awdur i ddangos hanes ym maes ymchwil. 12. Ychydig flynyddoedd o brofiad ôl-ddoethurol ym maes niwrowyddoniaeth.
Lefel Iaith Gymraeg	Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course. Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.
Gwybodaeth Ychwanegol	Gellir anfon ymholiadau anffurfiol at Dr Roberto Angelini drwy e-bostio roberto.angelini@abertawe.ac.uk

